# WILLIAMS, Syr HUGH (1718 - 1794), milwr ac aelod seneddol

**Enw:** Hugh Williams
**Dyddiad geni:** 1718
**Dyddiad marw:** 1794
**Priod:** Emma Bulkeley (née Rowlands)
**Plentyn:** Robert Williams
**Rhiant:** Griffith Williams
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** milwr ac aelod seneddol
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1718 yn fab i Griffith Williams o Ariannws (Llangelynnin, dyffryn Conwy) ac yn yr i Edmund Williams frawd Syr Hugh Williams o'r Marl; ar farw ei gâr Syr Robert Williams o'r Marl (1745), daeth yn 8fed barwnig 'o'r Penrhyn' (J. E. Griffith, *Pedigrees*, 186 a 43). Priododd yn 1761 (yn ail r iddi) ag Emma, gweddw'r arglwydd James Bulkeley ac aeres Caerau a Chastellior (gweler dan Roberts, Lewis). Aeth i'r fyddin, yn swyddog, yn 1739, ac yr oedd yng ngarsiwn ynys Minorca pan ymosodwyd arni yn 1756; yr oedd yn is-filwriad catrawd o wirfoddolwyr yn 1759, ac yn gyrnol y '53rd Foot' yn 1761. Troes wedyn at wleidyddiaeth - yr oedd y crynswth o stadau a ddaeth i'w ran trwy etifeddiaeth neu briodas wedi ennill dylanwad mawr iddo. Bu'n aelod seneddol dros Fiwmares yn 1768-80 a 1785-94; ar hyd y cyfnod 1761-94 yr oedd yn gwnstabl Biwmares, a bu'n faer y dref droeon. Daeth yn aelod o Gymdeithas y Cymmrodorion yn 1770 (*Add. Morris Letters*, t. 767), ac yr oedd yn drysorydd Cymdeithas yr Hen Frutaniaid yn Llundain yn 1773. Bu farw yn y Friars, Llanfaes, 19 Awst 1794, 'yn 76 oed.'

## Awdur

**Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

## Ffynonellau


*Old Wales a monthly magazine of antiquities for Wales and the Borders* (Talybont Breconshire 1905-1907), i, 133

a'r cyfeiriadau uchod


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748913


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu